# Cymraeg Mewn Ymarfer Proffesiynol 1
## ECAD4020
## 2024-25

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

## Darlith 11:
## Mae hi'n amser stori
## 9.1.2025

Peniarth .cymru | RHAGOR iaith | CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG | WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

n.evans@pcydds.ac.uk

# Allwedd:


Drilio


Ymarfer ar lafar (yn unigol)


Tasg wrando


Gwaith pâr


Grŵp o dri


Gwaith grŵp


Amser canu


Gwaith ar y byrddau gwyn


Tasg ysgrifennu


Tasg ddarllen


Help llaw


Tystiolaeth i'r Portffolio

# Heddiw, byddwn ni'n:

- codi eich ymwybyddiaeth am lyfrau Cymraeg i blant;
- ystyried pwysigrwydd darllen straeon yn y dosbarth;
- ystyried **sut** i ddefnyddio llenyddiaeth wrth ddatblygu sgiliau;

# Datblygu sgiliau Darllen

Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hyn y dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â'i gilydd, yn ogystal â sgiliau gwrando, siarad, **darllen** ac ysgrifennu. Golyga hyn hefyd y dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae'r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau'i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Llywodraeth Cymru (2020) Canllawniau Cwricwlwm i Gymru. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/api/storage/e5aad94a-d71a-471d-a869-6fa8bde9837e/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.docx Gymru

## Munud i feddwl …

# Faint o awduron llyfrau plant fedrwch chi eu henwi?



T Llew Jones

Angharad Tomos

Gwen Redvers Jones

Myrddin ap Dafydd

Emily Huws

Mererid Hopwood

Mary Vaughan Jones

Tudur Dylan Jones

Elin Meek

Haf Llywelyn

Bethan Gwanas

Manon Steffan Ros

… a llawer iawn mwy!

# Llyfrau a mwy …

- Llyfrgelloedd: yn y Brifysgol / yn eich ardal leol
- Siopau llyfrau lleol / siopau ar-lein gan weisg unigol / siopau elusen
- Catalogau llyfrau
- Cyngor Llyfrau Cymru
- https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&cad=rja&uact=8&ved=2ahUKEwiys6HMgYX6AhUshv0HHfd_CI0QFnoECAQQAQ&url=https%3A%2F%2Fllyfrau.cymru%2Fen%2F&usg=AOvVaw2cLyrW4nxTrQmUTgjuIWys
- Prynu llyfrau: https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&cad=rja&uact=8&ved=2ahUKEwjD_tb5gYX6AhX_gP0HHZ7sDD0QFnoECAIQAQ&url=https%3A%2F%2Fwww.gwales.com%2F&usg=AOvVaw18PkzFVCDQaJPQEZRTPcuo
- Ar-lein: Llenyddiaeth Cymru

https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&cad=rja&uact=8&ved=2ahUKEwiZqaug3IPzAhXQA2MBHZPLA9QQFnoECAwQAw&url=https%3A%2F%2Fwww.llenyddiaethcymru.org%2F&usg=AOvVaw1piPqqtSu9yyfUQfX15J_c

# Gwobr Tir na n-Og 2024




GWOBR · AWARD
CLAWR LLYFR PLANT Y FLWYDDYN
CHILDREN'S BOOK COVER OF THE YEAR
2024
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES
Rhestrau byrion
Shortlists


MYND i WELD NAIN
gan DELYTH JENKINS
lluniau gan LILY MŶRENNYN
y lolfa


DIWRNOD Y
LLYFR
WORLD
BOOK
DAY®




CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Munud i feddwl …

Pa fathau gwahanol o ddarllen sy'n digwydd mewn dosbarthiadau yn ein hysgolion?



# Darllen, darllen a mwy o ddarllen

- **Darllen i ddisgyblion**
- **Darllen ar y cyd** (mae angen bod pawb yn medru gweld yr un testun fel bod y dosbarth cyfan yn darllen ar yr un pryd)
- **Darllen grwp dan arweiniad** (yn darllen yr un testun ar yr un lefel gallu darllen – 4 i 6 disgybl mewn grwp – rhaid i'r athro baratoi ar gyfer y sesiwn o flaen llaw)
- **Darllen pâr** (gyda phartner darllen neu oedolyn)
- **Darllen un i un** (darllen i'r athro tra bod yr athro'n gwrando – cyfle yma i drafod ystyr geiriau a chynnig strategaethau ar sut i ddarllen geiriau sy'n anodd i'w darllen)
- **Darllen annibynnol** (gobeithio er mwyn pleser - dyna'r nod!)

# Grwpio yn unol â gofynion y dasg …
















**Cofiwch ystyried …**


Mae llenyddiaeth yn
tanio’r dychymyg ac yn
ysbrydoli creadigrwydd.
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

# Creu amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith …






Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hyn y dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â'i gilydd, yn ogystal â sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Golyga hyn hefyd y dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae'r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau'i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig**

## Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.






**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Cam Cynnydd 1

Rwy'n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd.

Rwy'n gallu ailadrodd straeon.

Rwy'n gallu ymateb yn greadigol i'r ystod o lenyddiaeth rwy'n ei chlywed, ei ddarllen neu'n ei weld.

# Adrodd stori

- Nid rhywbeth newydd yw'r grefft o adrodd stori.
- Mae'n filoedd o flynyddoedd oed gyda phobl yn mwynhau diddanu ei gilydd drwy adrodd stori.
- Gall bobl fwynhau rhannu stori, actio stori neu berfformio stori.
- Mae gan bob cenedl ei thraddodiad ei hun ac mae'r traddodiad hwnnw wedi newid ac esblygu dros y canrifoedd.



# Munud i feddwl …

## Pam bod darllen i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn bwysig?

TASG GRWP (5 MUNUD):

Gwnewch nodiadau er mwyn medru adrodd yn ôl.

# Pam bod darllen i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn bwysig?



- Mae’n gyfle i fodelu **sut** mae darllen.
- Modelu beth yw darllen da.  (Mae’n sgíl sy’n rhaid ei hymarfer)
- Cyfle i gyflwyno geiriau / ymadroddion / idiomau newydd.
- Ffordd dda o ddatblygu sgiliau Gwrando.
- Ffordd dda o ddatblygu sgiliau Llafaredd.
- Ffordd dda o drafod a datblygu syniadau newydd.
- Ffordd dda o gyflwyno testunau newydd.

# Mae hi'n amser stori…

https://youtu.be/5bRe2UNp07I?si=cxqVISOy3RKqyKzo

TASG GRWP
(10 MUNUD)

Wedi i chi wylio'r ffilm, ystyriwch:

- Beth mae hi'n ei ddarllen?
- Sut mae hi'n darllen?
- Sut mae hi'n defnyddio ei llais?
  Pa naws sydd i'r "Amser stori"?
- Pe bai Mari Grug yn darllen o flaen dosbarth o blant, beth fyddai hi'n ei wneud yn wahanol?
- Yn eich barn chi, beth sy'n gwneud storïwr da?

# Mae hi’n amser stori…

**Grwp 1:**
https://youtu.be/yQQjQJ5KWQ4

**Grwp 2:**
https://youtu.be/D6R4UNCTIgg

**Grwp 3:**
https://youtu.be/rsxzHsMjeIl

**Grwp 4:**
https://youtu.be/5bRe2UNp07I

**Gwyliwch recordiad o “Amser Stori” (gan Ganolfan Peniarth) o Mari Grug yn darllen stori.**

**TASG GRWP (10 MUNUD)**

# Defnyddio llyfr stori fel sbardun

Pa bethau dylid eu hystyried wrth gynllunio sesiwn “amser stori”?



# BLE? Lleoliad “amser stori”

# PRYD?










Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

# Defnyddio llyfr stori fel sbardun

## Pa bethau dylid eu hystyried wrth ddewis llyfr stori addas ar gyfer eich dosbarth?

TASG GRWP (5 MUNUD):

Gwnewch nodiadau er mwyn medru adrodd yn ôl.

# Defnyddio llyfr stori fel sbardun

Ydy'r llyfr stori / testun yn addas i'r oed / dosbarth dan sylw?

Ydy'r llyfr stori / testun yn cynnig digon o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith?

Ydy'r llyfr stori / testun yn mynd i apelio at blant y dosbarth?

Ydy'r llyfr stori / testun yn cynnig digon o cyfleoedd i ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd?

Ydy'r llyfr stori / testun wedi cael ei ysgrifennu'n dda?

# Beth am ystyried ...?

Ydy eich dewis yn Gymreig ei naws?

A oes llyfr mawr ar gael?

A oes llyfr electronig ar gael?

# Beth sydd ar gael …?

















































a llawer iawn mwy!

# Beth sydd ar gael ...?
























a llawer iawn mwy!

# Mae hi'n amser stori …

Naws arbennig

Cyfle i fwynhau

Cyfle i ddatblygu sgiliau meddwl

Cyfle i drafod syniadau

Cyfle i ddysgu geiriau newydd

Cyfle i drafod llyfrau a storïau

Cyfle i fynegi barn.

Cyfle i ddefnyddio gofod mewnol / allanol

# *Dewch i eistedd ar y mat*
## *(London Bridge is falling down)*

**Dewch i eistedd ar y mat,**

**Ar y mat, ar y mat,**

**Dewch i eistedd ar y mat,**

**i ddarllen stori**

## *Amser stori*
## *(Twinkle, twinkle little star)*

**Dewch i eistedd ar y llawr**
**Dewch i edrych ar y clawr**
**Dewch i deithio dros y byd**
**Dewch i wlad trysor a hud.**

**Dewch i eistedd ar y llawr**
**Mae hi'n amser stori nawr.**

# Cyn dechrau darllen, sut mae ennyn diddordeb y disgyblion?






Mae sachau stori'n cael eu defnyddio'n effeithiol iawn yn y Cyfnod Sylfaen.

# Dysgu drwy thema: Tua'r Copa



































# Geirfa darllen stori

stori
ffeithiol
clawr blaen
clawr cefn
broliant
awdur(es)
cymeriadau
teitl
atalnodi
cynnwys
brawddeg
lleoliad
gair
llythrennau
digwyddiadau

Cyn dechrau darllen …

# Edrychwch yn fanwl ar y clawr.
# Beth hoffech chi wybod am y stori?




Meddyliwch ..
SUT byddech chi'n cyflwyno'r dasg hon?

# Dewch i ddarllen gyda fi …

1. Trafod y cysyniad o'r "sach stori".

2. Trafod y clawr:
- Beth welwch chi?
- Cyflwyno geirfa newydd (efallai cyfieithu geirfa o'r Saesneg i'r Gymraeg).
- Pwy fydd y cymeriadau?
- Beth ydy'r teitl?
- Pwy ydy'r awdur?

3. Datblygu sgiliau meddwl ehangach:
- Pwy, yn eich barn chi, ydy Wendi Wlanog?
- Beth ydy Lili'r Wyddfa?
- Beth ydy'r Wyddfa?
- Wrth ddarllen y stori, beth hoffech chi wybod?
- Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd yn y stori hon?
- Ydych chi'n meddwl eich bod yn mynd i fwynhau'r stori? Pam?



# Sut mae defnyddio sesiwn darllen stori er mwyn datblygu sgiliau?

- Mae’n fanteisiol bod pawb yn medru gweld y llyfr stori (llyfr mawr / llyfr electronig).
- Holi ac ateb: gallwch ddrilio patrymau drwy ofyn cwestiynau gan fodelu’r patrymau ateb cywir (sesiwn ddrilio)
- Sgiliau Llafar: gallwch ofyn iddyn nhw drafod llun penodol o’r llyfr.  Cofiwch annog y disgyblion i ateb a siarad mewn brawddegau llawn.
- Gallwch ddatblygu sgiliau meddwl drwy ofyn cwestiynau pen-agored, e.e. Pam? Beth os …?
- Wrth ddarllen, gallwch dynnu sylw at nodwedddion ieithyddol penodol, e.e. atalnodi, defnydd o ansoddeiriau, a.yy.b. (bydd hyn yn arwain at godi safonau sgiliau ysgrifennu)
- Gallwch ddatblygu sgiliau meddwl, sgiliau empathu, sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, drwy ddewis stori addas a chwestiynau addas wrth ennyn trafodaeth.

# Cyd-ddarllen hyd at dudalen 15 .....

TASG GRWP
(10 MUNUD)

Pa elfennau ieithyddol y medrwn ni dynnu sylw atynt wrth i ni ddarllen gyda'r disgyblion?



Mae llyfrau mawr yn ffordd dda o ddenu sylw plant a magu hoffter o lyfrau stori a barddoniaeth.












Wythnos nesaf
(16.12.2025):

**Dewch â llyfr darllen addas i ddosbarth o ddisgyblion oed Dysgu Sylfaen gyda chi.**

Mae digon o ddewis yn y llyfrgell.


diolch
YN
fawr